## Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 20-10 (p1) : 13 Hydref 2010**

**Ymateb Semta i'r alwad am dystiolaeth ar gyfer ymchwiliad yr ELC i mewn i'r ERP**

**Cefndir**

Mae Semta wedi darllen y Ddogfen Prosiectau Diwygio Peirianneg (ERP) â chryn diddordeb ac mae'n cymeradwyo ei huchelgais a'i chyfeiriad. Wrth wneud sylw ar y potensial i'r ERP gefnogi'r diwydiannau yn ôl troed Semta mewn ffordd lwyddiannus, mae Semta wedi defnyddio ei wybodaeth am y farchnad lafur a'r galw am sgiliau'r dyfodol, fel y crybwyllir yn ein cyhoeddiad, *Skills and the Future of Engineering in Wales*. Mae hwn yn Asesiad Sgiliau Sector ac mae'n ffurfio rhan o ddadansoddiad Semta o sgiliau ar draws y DU ar gyfer peirianneg. Cynhwysir crynodeb o'r wybodaeth a'r materion perthnasol allweddol yn Atodiad 1.

Wrth ddarparu ymateb, mae Semta wedi myfyrio ar ei gyfrifoldeb ei hun fel Cyngor Sgiliau Sector, ei rôl o fewn Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru (a'r Strategaeth Gweithgynhyrchu WMF sydd i ddod) a'i ddiddordeb cyffredinol yng Nghymru a'i ymroddiad i'w lles. Mae'r strategaeth a gaiff ei chymeradwyo gan WMF yn rhoi sylw i gyfrifoldeb, rôl a diddordeb Semta fel y nodir uchod.

Mae'r ymateb hwn yn dilyn gosodiad ERP ac mae'n adlewyrchu'r cyfrifoldeb, y rôl a'r diddordeb uchod sydd, o safbwynt Semta, wedi'u cyfuno o fewn cyfeiriad Strategaeth Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru.

**1. Cyflwyno Adnewyddiad Economaidd**

Gweledigaeth Strategaeth Gweithgynhyrchu WMF yw adeiladu economi Cymreig cynaladwy, gyda sylfaen gweithgynhyrchu diogel a rhwydweithiol yn gyrru busnes byd-eang â gwerth uchel ychwanegol ymlaen. Mae'r ffactorau rhyngwladol a domestig gwaelodol sy'n penderfynu sgôp y weledigaeth hon yn uchelgeisiol ac yn greadigol ac fe fyddant yn galw ar fathau newydd o sgiliau a gwybodaeth. Mae'n amlwg bod cryn orgyffwrdd o ran y weledigaeth a gefnogir gan ERP. Fel mesur o'r berthynas ag ERP, bydd y ffactorau WMF hyn yn ymdrin â Chwmnïau Perfformiad Uchel sy'n meithrin Rhagoriaeth y Farchnad, Rheoli Gwybodaeth a Moeseg Corfforaethol. Mae'r gefnogaeth fusnes a argymhellir gan WMF yn dod o fewn ffiniau 'taith gyffredinol' yn hytrach na 'chynllun cyffredinol' sy'n cynnig datrysiadau pwrpasol i ofynion pwrpasol.

**2. Deall y sialensiau a'r cyfleoedd**

Cam canolig ar y daith gyffredinol hon – neu'r Daith i Ragoriaeth y mae Strategaeth WMF yn ei chefnogi - fydd yr angen i weithio ar nifer o faterion rhyngwladol. Mae'r rhain ar gyfer WMF, sy'n adlewyrchu'r sialensiau a ddiffinnir gan ERP, yn cynnwys:
<u>Globaleiddiad;</u> Cynhyrchu'n lleol, gwerthu o bell.
<u>Amgylchedd Cynaladwy</u>; O'r gyrrwr economaidd i'r cymhelliad moesegol.
<u>Technoleg y dyfodol</u>; Defnyddio gwyddoniaeth i roi technolegau i ddatrys materion busnes.
<u>Arloesedd;</u> Cwmnïau sy'n defnyddio technolegau'n greadigol.
<u>Ymgyrch am Werth Ychwanegol Uwch;</u> Cynnal her economi cynaladwy.
<u>Cyflogaeth yn y Sector Gweithgynhyrchu;</u> Gweithlu symudol hyblyg gyda sgiliau aml-haen ac aml-swyddogaeth.

### 3. Buddsoddi mewn adeiledd ansawdd uchel a chynaladwy

Nodwedd o Strategaeth WMF yw cydnabod y bydd angen i Gwmnïau'r 21ain Ganrif weithio o fewn 'cadwyni gwerth hir'. Mae'r cadwyni hyn yn golygu bod rhaid i gwmni unigol ddod yn sensitif i werth a chyfoeth ei gyflenwyr a'i gwsmeriaid fel yr ydyw o ran ei anghenion ei hun. Gall buddsoddiad is-adeiledd ERP alluogi'r cadwyni gwerth hir hyn i weithredu'n effeithiol drwy ddarparu cydbwysedd rhwng anianawd ffisegol cwmnïau'n ymwneud â busnes a'r broses o rannu data/gwybodaeth y mae angen iddi ddigwydd. Yn hollol agored, fe fydd WMF yn ymdrin ag Ynni ac Effeithlonrwydd, Marchnadoedd a Marchnata, Cadwyni Busnes a Phartneriaethau Busnes ar hyd y cadwyni hyn.

### 4. Gwneud Cymru'n le mwy atyniadol i weithio ynddo

Wrth fynd ar ôl cadwyni gwerth hir, bydd WMF yn talu sylw agos i'r budd-deiliaid sy'n cynrychioli adnodd busnes allweddol. Caiff y gweithgareddau masnachol sy'n cael eu datblygu ar hyd y cadwyni gwerth hyn eu gyrru gan argoelion da o ran cyfleoedd busnes. Mae'r rhain, sydd yn eu hanfod yn byrth i gwmnïau'r 21ain Ganrif, yn cynnig y cyfle i Gymru ddod yn hoff safle ar gyfer datblygiadau busnes a chymdeithasol.

### 5. Ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau

Yr hyn sydd wedi deillio o waith WMF yw fod yn rhaid cyflwyno achos rhesymegol dros ddatblygu pobl er mwyn llwyddo. Gwyddom fod hyn yn sail ar gyfer buddsoddiad a'n her ni yw gallu darparu datrysiadau pwrpasol ar gyfer anghenion pwrpasol. O fewn y sylfaen sgiliau gofynnol, gwyddom fod datblygiad corfforaethol, gweithredol a phobl yn mynd law yn llaw. Bydd newidiadau yn y naill yn golygu bod newidiadau yn y llall yn angenrheidiol. Yna, fe ddaw hyn yr her cyntaf i'w wynebu gan ymyrraeth a chefnogaeth y cyhoedd. Mae angen i'r datrysiad cyffredinol gael ei ddisodli gan y gweithgaredd penodol, y cynnwys theoretig gan wybodaeth, y dadansoddiad anghenion o'r hen anghenion gan gynlluniau gweithlu strategol. Yr ail her ar gyfer gweithredoedd preifat cyflogwyr yw defnyddio deilliannau'r cynlluniau gweithlu strategol er mwyn rhybuddio unigolion (o oedran ysgol i fyny) ac addysg/datblygiad (o oedran cynradd i hŷn) ynghylch yr hyn yw'r sylfaen sgiliau gwaelodol ar hyn o bryd a'r hyn a ddaw. Fel a dystiwyd gan Asesiad Sgiliau Sector Cymru Semta, mae'r Cynghorau Sgiliau Sector mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu'r wybodaeth am y farchnad lafur – mae'r crynodeb o'r 'arwydd o alw' – a fydd yn helpu'r ERP i yrru gweithgareddau ymlaen – wedi'i seilio ar dystiolaeth ac mae'n gryf o ran ei ystadegau. Bydd WMF yn gallu ymdrin â'r materion hyn drwy bartneriaethau â budd-deiliaid gan mai'r rhain yw'r un cyfranddalwyr â'r rheini sy'n tanategu'r uchelgais hwn i ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau.

Rydym yn falch o weld bod ERP yn cynnig cefnogaeth barhaus i gynlluniau prentisiaethau ar y cyd – mae'r agwedd arloesol hon tuag at y model prentisiaethau wedi galluogi cwmnïau bychain i gymryd rhan mewn prentisiaethau, ac i fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o dechnegwyr a chrefftwyr â sgiliau. Yn yr un modd, mae'r gwaith a wnaethpwyd ar Lwybrau i Brentisiaethau a Recriwtiaid Ifainc wedi cynnal diddordeb cwmnïau mewn prentisiaethau a'u cefnogaeth iddynt, er gwaethaf y sialensiau economaidd a wynebir. Mae wedi arwain at 400 o bobl ifanc yn cael eu hyfforddi gan golegau ledled Cymru, ac mae wedi ei gymeradwyo gan gyflogwyr nad oeddynt mewn sefyllfa ariannol dda i allu ymroi i brentisiaethau.

Nod prosiect cronfa Blaenoriaeth Sector Semta yw cydweithio â darparwyr addysg a hyfforddiant i gynllunio a datblygu rhaglenni, yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, sy'n mynd i'r afael â sgiliau technolegol newydd ac anghenion cynhyrchiant cyflogwyr. Bydd Semta a phartneriaid SSC, Cogent a ProSkills yn cefnogi'r

broses o gyflwyno'r rhaglenni hyn i'r person cywir ar yr adeg gywir. Mae rhyw 500 o weithwyr mewn 80 o gwmnïau (gan gynnwys 60 busnes bach a chanolig) am elwa o hyn. Mae'r fenter beilot yn targedu 20 o ddarparwyr o'r sectorau preifat, Addysg Bellach ac Uwch a'i nod yw datblygu 30 o raglenni dysgu newydd.

Mae'r mathau hyn o fentrau, sy'n deillio o waith cyrff megis Semta a'r WMF gyda chyflogwyr, yn cysylltu'r achos dros ddatblygiad pobl a'r arwydd o'r galw am weithgareddau sy'n diwallu anghenion cwmnïau mewn ffordd ymarferol.

Mae'r ERP yn cynnig diwygiad o'r rhwydwaith SSC – mae rhwydwaith y Cyngor Sgiliau Sector ar draws y DU yn adolygu ei heffaith yn gyson, ac mae'n cydweithio ar flaenoriaethau cyffredin. Lle mae cynghrair naturiol yn bodoli, mae clystyrau SSC wedi ffurfio (e.e. o amgylch Gweithgynhyrchu, Peirianneg a STEM) ac rydym yn cario gwaith ymlaen ar y cyd. Gobeithiwn y byddai'r gweithgaredd ERP yn cefnogi ac yn annog yr ymagwedd hon. Fel nodwyd eisoes, gall Cynghorau Sgiliau Sector gynyddu galw deallus cyflogwyr am hyfforddiant a sgiliau drwy ddarparu arweiniad arbenigol ar gysylltu gweithgarwch dysgu a strategaeth fusnes a chynhyrchiant, drwy ei weithgarwch Datblygu Gweithlu Strategol.

Edrychwn ymlaen at ddysgu ysgogol, cyffrous ac arloesol drwy'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, a gobeithio y bydd ei weithgarwch yn annog rhagor o bobl ifanc i ystyried dilyn gyrfa mewn galwedigaethau a diwydiannau STEM. Bydd yn hanfodol bod yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn rhoi sylw i'r holl ystod o allu a dyheadau, ac yn arwain pobl ifanc i'r llwybrau dysgu (academaidd, galwedigaethol ac yn y gweithle) sydd fwyaf addas ar gyfer eu huchelgeisiau a'u galluoedd.

**6. Annog arloesedd**

Thema gref yn Strategaeth WMF yw'r sylw i'r potensial sydd gan weithgynhyrchu gwerth uchel ychwanegol. Mae'r fath weithgaredd, a gaiff ei adnabod o'i weld ond sy'n anos i'w ddisgrifio, yn cwympo o fewn sgôp cwmnïau perfformiad uchel. Yn eu tro, mae gan y rhain nodweddion y gellir eu disgrifio orau fel Rhagoriaeth y Farchnad, Rheoli Gwybodaeth a Moeseg Gorfforaethol. Gellir cyflawni'r rhain drwy broses o ymchwil awyr las i ymchwil cymhwysol i drosglwyddo technoleg i gymhwyso technoleg. Felly, rhoddir pwyslais ar arloesedd wrth galon Strategaeth WMF. Heb anwybyddu'r perthnasau dwyochrol sy'n bodoli rhwng y pedwar maes ymchwil dynodedig, gwelir yr achos mai un deilliant o'r gwaith mewn peirianneg a gweithgynhyrchu pellach yw darparu cynnyrch, gwasanaethau a chyfleusterau i'r tri maes ymchwil dynodedig eraill.

**7. Targedu'r gefnogaeth fusnes yr ydym yn ei chynnig**

Mae'r symbiosis rhwng y meysydd ymchwil dewisedig a'r ffocws a roddir ar y sectorau dethol yn amlwg ac mae'r ERP yn rhoi disgrifiad cyffyrddiad ysgafn o ddeunyddiau a gweithgynhyrchu pellach. Byddai'r WMF a Semta yn naturiol am gydweithio'n agos â'r grŵp sector perthnasol er mwyn integreiddio dealltwriaeth raddol o'r sector hwn, Strategaeth Gweithgynhyrchu WMF a gwaith parhaus Semta gyda chyflogwyr ar eu gofynion sgiliau. Rhan o waith WMF wrth gyflwyno cynllun gweithredu addas yw rôl y budd-ddeiliaid ac mae'r rhain yn amlwg yn cynnwys mentrau presennol Llywodraeth y Cynulliad/ERP a rhai nad ydynt wedi eu diffinio eto. Fel enghraifft, byddai trawsffurfiad Fforymau'r Diwydiant presennol dros gyfnod o amser a gytunir yn cael ei gefnogi gan WMF er mwyn dod yn fwy tebyg i gymdeithasau masnach sy'n seiliedig ar wybodaeth. Unwaith eto, byddai'r trawsffurfiad posib y byddai unrhyw un o'r mentrau cyhoeddus presennol sy'n effeithio ar weithgynhyrchu yn eu hwynebu, yn cael ei gynorthwyo drwy strategaeth raddol WMF. O fewn y meysydd hyn, mae angen o hyd i symud oddi wrth

ddiwylliant grantiau i un lle mae benthyciadau (benthyciadau ysgafn o bosib, ond nid o reidrwydd) yn seiliedig ar risgiau a manteision sy'n cael eu rhannu megis fod arian cyhoeddus yn cael ei ddychwelyd i'r pwrs cyhoeddus at ail-ddefnydd pellach.

**8. Ymrwymiad a phartneriaeth parhaus**

Ystyrir budd-ddeiliaid fel adnodd allweddol wrth sgopio a chyflwyno'r Strategaeth WMF ac fel y gellir gweld o'r ymatebion uchod, mae gan y Strategaeth hon nifer o'r un uchelgeisiau ac amcanion neu rai tebyg. Yr her fydd cytgordio'r gweithredoedd a gynlluniwyd gan yr holl fudd-ddeiliaid perthnasol. Mae'r pynciau a ystyriwyd gan WMF fel sail ganolog i'r Strategaeth Gweithgynhyrchu yn cwympo i ddau gategori eang, y sawl sydd, yn eu hanfod, yn darparu sail ar gyfer sefydlogi'r sector – Siapwyr Busnes – a'r sawl sy'n cynrychioli'r meysydd ar gyfer rhagoriaeth yn y dyfodol – Gyrwyr Busnes. Y rhain, yn eu tro, yw;

**Siapwyr Busnes**

Globaleiddio; Cynhyrchu'n lleol, gwerthu o bell.
Amgylchedd Cynaladwy; O'r gyrrwr economaidd i'r ysgogiad moesegol.
Technoleg y dyfodol; Defnyddio gwybodaeth i ddarparu technolegau sy'n datrys materion busnes.
Arloesedd; Cwmnïau sy'n defnyddio technolegau'n greadigol.
Ymgyrch am Werth Ychwanegol Uwch; Cynnal yr her o economi cynaladwy.
Cyflogaeth yn y Sector Gweithgynhyrchu; Gweithlu symudol hyblyg gyda sgiliau aml-haen ac aml-swyddogaethol.

**Gyrwyr Busnes**

1. **Cadwyni Gwerth Busnes.** Model a adeiladwyd ar gadwyni cyflenwi/cwsmeriaid hir ar wasgar yn fyd-eang sy'n cynnwys clystyrau, diddordebau busnes cilyddol ac sy'n allblyg.
2. **Datblygu sgiliau a gwybodaeth**. Perthnasol i brosesau gwerth ychwanegol ac wedi ei anelu at y person cywir gyda'r sgiliau cywir ar yr adeg gywir, wedi'i yrru gan Gynllunio Gweithlu Strategol, sgiliau aml-haenog, aml-swyddogaethau wedi eu cyflwyno mewn pryd.
3. **Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel Ychwanegol.** Wedi'i yrru gan anghenion cwmnïau perfformiad uchel sy'n cyflawni rhagoriaeth y farchnad, rheoli gwybodaeth a moeseg corfforaethol.
4. **Marchnadoedd a Marchnata.** Yn rhoi sylw i farchnadoedd newydd a marchnata, ac wedi'i siapio gan weithgynhyrchiant leol gyda dosbarthiad byd eang lle mae'r diddordeb busnes yn cael ei yrru gan sectorau marchnad neu swyddogaethau busnes penodol.

Mae pob un o'r pynciau hyn yn sail ar gyfer adnabod y partneriaid allweddol a chanddynt rôl i'w chwarae'n lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**9. Cyflwyno er adfywiad economaidd**.

Y prif gyfraniad y gall y Strategaeth WMF ei wneud i'r agwedd yma ar yr ERP yw darparu tystiolaeth ar gyfer siapio'r gefnogaeth i'w rhoi i gwmnïau sy'n cydnabod bod hyn, yn ei hanfod, yn gefnogaeth a roddir i gyflogeion. Bydd WMF yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol wrth gyflwyno'i Strategaeth ei hun ac y'i darperir i'r Grwpiau Ymchwil arbenigol a Sectorau â Blaenoriaeth perthnasol mewn modd y gellir ei ddefnyddio.

**Sylwadau i Gloi**
Mae tipyn yn gyffredin rhwng uchelgeisiau a chyfeiriad ERP, Semta a WMF. Y prif wahaniaeth yw'r sgôp. Mae ERP ar gyfer sawl sector ac fe'i gyrrir gan angen y cyhoedd. Mae WMF ar gyfer gweithgynhyrchu ac fe'i gyrrir gan angen preifat. Yr her yw sicrhau drwy'r sectorau dethol hyn fod yr anghenion cyhoeddus a phreifat yn cydweithio er lles Cymru CCC. Mae Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru wedi cyhoeddi ei Strategaeth ac mae'n datblygu'r cynllun arfaethedig ar hyn o bryd. Caiff y dechreubwynt ar gyfer y cynllun hwn ei grynhoi yn yr adran ganlynol.

## 1. Crynodeb o'r Daith i Ragoriaeth

Mae gan Fforwm Gweithgynhyrchu Cymru weledigaeth i adeiladu economi Cymreig cynaladwy, gyda sylfaen gweithgynhyrchu ddiogel ac wedi'i rhwydweithio sy'n gyrru ymlaen busnes â gwerth ychwanegol uwch byd-eang yng Nghymru. Bydd y Fforwm, sydd wedi nodi gyrwyr busnes a fydd yn siapio perfformiad cwmnïau yn yr 21ain Ganrif, yn cydweithio â'r Sector Gweithgynhyrchu i ddilyn 4 maes strategaeth rhyngberthnasol; Cadwyni Gwerth Busnes, Sgiliau a Gwybodaeth, Gweithgynhyrchu a Marchnadoedd a Marchnata Gwerth Ychwanegol Uwch. Wrth gwrs, nid yw gweithgynhyrchu'n fàs homogenaidd ac fe fydd gan y meysydd hyn effaith wahanol ar y math o gwmni a'u dylanwadu gan hynny – cwmnïau sy'n amrywio o feicro-fusnesau i fentrau bach a chanolig (SME) i fusnesau mawrion â gwneuthurwyr penderfyniadau lleol neu â phencadlys y tu allan i Gymru ac amryw rai sy'n fewnblyg, oportiwnydd, neu'n datblygu a/neu'n cyflawni rhagoriaeth. Bydd yr amrywiaeth wych hon yn herio Cymru CCC i amsugno anghenion a gweithredoedd penodol cwmni unigol ac mae'n arwain at y ffaith na all cynllun gweithredu unffurf weithio. Y dacteg, felly, i gyflwyno'r weledigaeth hon, yw dechrau ar daith sy'n galluogi cwmnïau i amsugno'r meysydd strategol hyn. O fewn y Fforwm, gwelwn hyn fel Taith i Ragoriaeth.

Caiff y daith ei thorri'n 3 cham eang, er nad oes ffiniau clir rhwng y camau hyn. Bydd rhai cwmnïau am ddechrau o'r dechrau, ac angen gwneud hynny, bydd rhai cwmnïau hanner ffordd ar hyd y llwybr, bydd rhai cwmnïau eisoes ar y blaen (ac yn wir, bydd gan rai cwmnïau droed ar bob cam). Yr her yw galluogi'r cwmnïau i ymrwymo ar adeg sy'n addas iddynt hwy. Er lles byrdra, y tri cham hyn yw 'sefydlu gwaelodlin y sector'; 'sefydlogi'r sector'; 'ceisio a gosod rhagoriaeth'. Ym mhob achos, y bwriad yw asesu, blaenoriaethu, cynllunio a gweithredu, gan fod yn ymwybodol bod datblygiad cyfundrefnol, gweithredol a phobl yn mynd law yn llaw.

Bydd sefydlu'r gwaelodlin yn agor y drws ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â'r sector ac fe fydd gwaith yn y maes hwn yn helpu i sefydlu gwaelodlin cyflawniad; bydd sefydlogi'r sector yn agor cwmnïau i ofynion byd eang globaleiddio, amgylchedd cynaladwy, technoleg y dyfodol, arloesedd, ymgyrch am werth ychwanegol uwch a chyflogaeth; bydd ceisio a chyflawni rhagoriaeth yn galluogi cwmnïau i fynd i'r afael â blaenoriaethau yn y pedair thema strategol gyda gwelliant parhaus gan ddefnyddio holl nodweddion y pedair thema.

Mae'r Fforwm wedi nodi budd-ddeiliaid a chanddynt ddiddordeb personol mewn cefnogi cwmnïau i fynd a symud ar y daith hon. Ar gyfer y trafodaethau a fydd yn digwydd gyda budd-ddeiliaid a'r sector, y cafeatau sydd ynghlwm wrth y papur hwn yw;

1. na all fod cynllun cyffredinol; gall fod taith gyffredinol.
2. y ddogfen hon yw sail trafodaethau; cwmnïau sy'n gwybod orau sut mae alinio'u hunain â'r daith.
3. nid yw cwmnïau ar eu pennau eu hunain; caiff partneriaethau eu datblygu

Felly, sut bydd hyn yn effeithio ar Gymru CCC? Ble mae'r gwir sialensiau? Beth fydd y canlyniad o ran ffynniant? Mae angen i ni wahaniaethu rhwng diddordebau preifat gweithgynhyrchu a budd cyhoeddus y genedl, a'u tynnu ynghyd serch hynny. Mae angen i'r pwrs cyhoeddus, drwy ei amryw fentrau, ail-ffocysu ar gefnogaeth benodol yn hytrach na chyfarwyddiaethau cyffredinol. Mae angen darbwyllo'r sector ei fod yn gyfrifol am y bil. Os tybiwn fod yna 14,000 o gyflogwyr mewn gweithgynhyrchu sy'n cyflogi 250,000 o staff gyda 75% heb eu trosi, mae 15% yn mynd i'r afael â gofynion byd-eang, mae 8% yn ceisio rhagoriaeth a 2% ar y blaen i'r gemau. Cymerwch fod y canrannau hyn yn adlewyrchu niferoedd y bobl a gyflogir ar bob cam gyda throsiant y pen ar gyfer gweithwyr yn £50,000, £60,000, £70,000 ac £80,000 fel ei gilydd – rhaid cyfaddef bod perthynas linol. Os yw cwmni ffug yn symud o'r 'gwaelodlin drwy sefydlogi i geisio a gosod rhagoriaeth' mae cynnydd o £500,000 mewn trosiant yn y cwmni ffug sy'n perthyn yn uniongyrchol i Gynnyrch Domestig Gros Cymru CCC.

**ATODIAD 1. Y tirlun peirianneg yng Nghymru**

- Mae'r diwydiant peirianneg yng Nghymru'n cyflogi 81,900 o bobl mewn 2,930 o sefydliadau.
- Mae 91% o sefydliadau peirianneg yng Nghymru'n cyflogi llai na 50 o bobl.
- Y sectorau mwyaf o ran cyflogaeth yw cynnyrch metel, cyfarpar mecanyddol ac electroneg.
- Mae ffocysau penodol o ran cyflogaeth yn y sectorau cerbydau modur, cyfarpar cludiant arall a metel o'u cymharu â'r DU.
- Ceir y rhan fwyaf o weithwyr peirianneg yn Sir y Fflint, Castell Nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr.
- Dim ond 1% o'r gweithlu peirianneg yng Nghymru sydd rhwng 16-19 o'i gymharu â 5% ym mhob sector yng Nghymru a'r DU. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer peirianneg yn y DU yw 2%.
- Er bod rhagamcanion cyflogaeth yn dangos bod dirywiad net mewn cyflogaeth yn debygol ym mhob sector peirianneg, bydd angen nifer sylweddol o staff ym mhob un o'r sectorau hyn er mwyn disodli'r rheini sy'n gadael eu swyddi oherwydd ymddeoliad neu resymau eraill.
- Mae'r rhagamcanion yn awgrymu gofynion net o oddeutu 12,000 o weithwyr (1,700 y flwyddyn) o fewn y diwydiant peirianneg yng Nghymru dros y cyfnod 2010-2016 i ddisodli'r sawl sy'n gadael.
- Mae disgwyl i'r gofynion net positif mwyaf ar gyfer llafur fod ar gyfer gweithwyr prosesau, ffatrïoedd a pheiriannau (4,700 o bobl), swyddi rheoli (1,700 o bobl) a chrefftau (1,500 o bobl).
- Roedd y trosiant ar y cyfan ar gyfer y sector peirianneg yng Nghymru'n fwy na £16 biliwn yn 2007, sef 18% o'r trosiant ar y cyfan ar gyfer pob sector yn yr economi yng Nghymru. Mae gan y sector peirianneg yng Nghymru drosiant y pen ar gyfer gweithwyr o £200,000 sy'n sylweddol uwch na'r ffigwr ar gyfer y sector cyfan o rywfaint o dan £76,000 y pen ar gyfer gweithwyr.
- Mae dadansoddiad o'r Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yn dangos bod y diwydiant peirianneg yn cyfrif am 13.9% o'r cyfanswm GVA yng Nghymru. Roedd y GVA ar gyfartaledd y pen ar gyfer gweithwyr yn y diwydiant peirianneg yng Nghymru'n £46,200 yn 2007, sy'n sylweddol uwch na'r ffigwr ar gyfer pob sector o'r economi yng Nghymru.

**Sgiliau peirianneg yng Nghymru**

Mae'r diwydiant peirianneg yn debygol o wynebau sialensiau sgiliau mawr wrth i natur gwaith newid yn gyflym ac wrth i gystadleuaeth byd-eang ddwysáu. Roedd cyflogwyr peirianneg yng Nghymru'n teimlo bod sgiliau'n fwyaf tebygol o newid yn y dyfodol yn sgil ***cyflwyno technolegau neu gyfarpar newydd, datblygiad cynnyrch a gwasanaethau newydd, gofynion deddfwriaethol neu reoliadol newydd a chyflwyno arferion gwaith newydd.***

Roedd 29% o sefydliadau peirianneg yn teimlo nad oeddynt wedi profi newid sgiliau dros y 2-3 blynedd diwethaf ac nid oeddynt yn rhagweld y fath newid yn ystod y 2-3 blynedd nesaf. O ystyried yr amryw yrwyr busnes a nodwyd a fydd yn effeithio ar sgiliau, mae'n annhebygol y byddai cyflogwr peirianneg yn gweld dim newid o gwbl yn y gofynion sgiliau dros gyfnod o chwe blynedd. Mae hyn yn dangos bod gan nifer sylweddol o weithwyr peirianneg ddealltwriaeth annigonol o ***ddatblygU gweithlu strategol*** a phwysigrwydd sgiliau wrth wella cynhyrchiant a chystadleuaeth.

Mae cyfran is o'r RHEINY sy'n gweithio yn y diwydiant Peirianneg (28%) wedi ennill NVQ Lefel 4 ac uwch, o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob sector yng Nghymru a'r DU (33% yr un). Does gan 11% o'r gweithlu Peirianneg yng Nghymru ddim cymwysterau o gwbl, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pob sector yng Nghymru (10%).

Roedd gan 19% o sefydliadau Peirianneg yng Nghymru leoedd anodd eu llenwi yn y cyfnod o Fawrth 2006 i Fawrth 2007 (17% ar gyfer Peirianneg yn y DU). Amcangyfrifir bod lleoedd anodd eu llenwi wedi costio cymaint â £31 i'r economi o ran gwerth ychwanegol uwch coll yn 2007. Gyda'r gwaethygiad diweddar yn yr economi, fe fydd nifer y lleoedd anodd i'w llenwi wedi lleihau.
Y prif resymau dros leoedd anodd i'w llenwi oedd diffyg ymgeiswyr â'r cymwysterau a'r sgiliau gofynnol, a diffyg ymgeiswyr â'r profiad gwaith gofynnol.

Roedd cyflogwyr yng Nghymru'n disgwyl i fylchau sgiliau ar gyfer pobl broffesiynol i gael yr effaith fwyaf ar eu busnes. Y prif sgiliau sydd ar goll mewn gweithwyr a gafodd eu rhestru oedd sgiliau technegol a pheirianyddol ar bob lefel (roedd 72% o'r sefydliadau peirianneg hynny yng Nghymru'n nodi bod bylchau mewn sgiliau).

Y tri phrif fwlch mewn sgiliau technegol ar gyfer y sector Peirianneg yng Nghymru oedd dylunio â chyfrifiadur (CAD), gweithrediadau peiriannu CNC, gwneud offer a pheirianneg drydanol.

Roedd y bylchau sgiliau cyffredinol y tynnwyd sylw atynt yn sgiliau personol allweddol neu graidd (10%), sgiliau TG/cyfrifiadurol (7%), sgiliau rheoli (7%), a sgiliau marchnata neu werthu (2%).

***Ynghyd â newidiadau o ran gofynion sgiliau, mae'r cymwysterau y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt yn debygol o newid, gyda'r gofyn am gymwysterau canolradd ac uwch yn cynyddu.***

**Beth mae hyn yn ei olygu o ran peirianneg yng Nghymru?**
Mae'r Asesiad Sgiliau Sector yn nodi nifer o argymhellion o ran gweithredu mewn perthynas â'r diwydiant peirianneg yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i:

- **Gynyddu sgiliau'r sawl heb gymwysterau**, sef oddeutu 9,600 o bobl yn 2008, yn ôl yr amcangyfrif, yn enwedig wrth weithredu prosesau, ffatrïoedd a pheiriannau (4,300 o bobl) a swyddi yn y diwydiannau â sgiliau (crefft) (3,200 o bobl).
- **Gwella sgiliau rheoli ac arwain**, gyda ffocws arbennig ar y 4,800 o reolwyr (38%) â chymwysterau'n is na Lefel 4 neu 5. Nodwyd bod 29% o gyflogwyr peirianneg yng Nghymru'n ymddangos fel pe bai ganddynt ddealltwriaeth annigonol o ddatblygiad gweithlu strategol a phwysigrwydd sgiliau wrth wella cynhyrchiant a chystadleuaeth.
- **Mynd i'r afael ag anghydbwysedd rhyw**. 17% yn unig o'r gweithlu peirianneg yng Nghymru sy'n fenywod (oddeutu 15,000 o bobl), sy'n is na'r ffigwr ar gyfer peirianneg yn y DU, sef 20%.
- **Mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gweithlu sy'n heneiddio**. Y prif her yw annog y sawl sydd rhwng 16-24 i fentro i fyd peirianneg, yn enwedig i'r sectorau cerbydau modur a metelau. Byddai angen i'r nifer o bobl rhwng 16-24 gynyddu o 6,300 er mwyn i'r sector peirianneg yng Nghymru gael nifer o bobl ifanc sy'n debyg i'r nifer sydd ym mhob sector arall yng Nghymru.
- **Mynd i'r afael â gwendidau penodol yn narpariaeth y colegau AB yng Nghymru**. Ar gyfer colegau AB yng Nghymru, death y lefelau boddhad isaf o blith cyflogwyr peirianneg o ran darpariaeth gwasanaethau yn nhermau perthnasedd cynnwys,

cyflwyno gwybodaeth, cyflwyno sgiliau ymarferol – hyfforddi staff, cyflwyno sgiliau ymarferol – cyfleusterau/technoleg ac ymateb hyfforddwyr, o'u cymharu â phum math arall o ddarparwr hyfforddiant. Lleoliad darpariaeth AB yn unig a gafodd ei raddio'n uwch ar gyfartaledd ar gyfer cyflogwyr peirianneg yng Nghymru.

Mae'r holl weithgareddau hyn yn gysylltiedig â'r sylwadau a nodwyd eisoes, sef bod rhaid i ***Ddatblygu Gweithlu Strategol*** chwarae rôl yn y broses o gynyddu'r galw gan gyflogwyr am y sgiliau lefel uwch newydd hyn. Mae Semta wedi gweithio ar draws y DU i ddatblygu offer i helpu cwmnïau i ddadansoddi eu gofynion sgiliau mewn ffordd strategol, sy'n cysylltu â'r cynllun busnes ac sy'n cynnig adenillion cadarn ar fuddsoddiad.